**CYNGOR SIR FYNWY**

**Pwyllgor Cynllunio**
**Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA**
**Dydd Mercher, 8fed Mai, 2024, 2.00 pm**

| | |
|---|---|
| **CYNGHORWYR YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Sirol Phil Murphy (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Sirol Dale Rooke (Is-Gadeirydd)<br><br>Cynghorydd Sirol: Jill Bond, Fay Bromfield, Emma Bryn, Sara Burch, Jan Butler, Tony Easson, Steven Garratt, Su McConnel, Jayne McKenna, Maureen Powell, Sue Riley, Ann Webb |

**SWYDDOGION YN BRESENNOL:**

| | |
|---|---|
| Craig O'Connor | Pennaeth Cynllunio |
| Philip Thomas | Rheolwr Gwasanaethau Datblygu |
| Andrew Jones | Development Management Area Team Manager |
| Amy Longford | Rheolwr Treftadaeth |
| Julian Sanders | Solicitor |
| Anna Hawker | Trainee Solicitor |
| Richard Williams | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**YMDDIHEURIADAU:**

Cynghorydd Sirol: John Crook, Meirion Howells

1. **Datganiadau o Fuddiant**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

2. **Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol**

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar y 5ed o Fawrth 2024 ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

3. **Cais DM/2020/01438 – Datblygu 15 annedd (9 fforddiadwy a 6 marchnad agored) a datblygiad a seilwaith arall cysylltiedig. Tir oddi ar Heol Tŷ Gwyn, Felinfach, NP4 0HU.**

Gohiriwyd ystyried cais DM/2020/01438 er mwyn sicrhau bod yr holl wybodaeth gyfredol yn gyhoeddus ar-lein ac er mwyn rhoi amser i gynnal proses ail-ymgynghori gyda chymdogion. Bydd adroddiad y cais yn cael ei ail-gyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio yng nghyfarfod mis Mehefin 2024 ar gyfer ystyriaeth.

https://www.youtube.com/live/B19BQBemGKw?si=lCUTIJOjQO-sEEG&t=107

**CYNGOR SIR FYNWY**

**Pwyllgor Cynllunio**
**Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA**
**Dydd Mercher, 8fed Mai, 2024, 2.00 pm**

4. **Cais DM/2024/00206 – Tystysgrif datblygiad cyfreithlon ar gyfer defnydd arfaethedig yr eiddo fel cartref Byw â Chymorth ar gyfer 5 unigolyn oedrannus (dosbarth defnydd C3): 28 Cilgant Jasper Tudor, Llan-ffwyst, Sir Fynwy, NP7 9AZ.**

Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y cais a gohebiaeth a dderbyniwyd yn hwyr ac argymhellwyd eu bod yn cael eu cymeradwyo fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad.

Cais yw hwn am Dystysgrif Datblygiad Cyfreithlon (LDC) ar gyfer Defnydd neu Ddatblygiad Arfaethedig, a'i ddiben yw canfod a oes angen caniatâd cynllunio ar gyfer y defnydd arfaethedig. Byddai LDC yn rhoi sicrwydd ynghylch yr angen, neu beidio, am ganiatâd cynllunio.

https://www.youtube.com/live/B19BQBemGKw?si=J-R0hEHMl7p99_T-&t=180

Wrth nodi manylion y cais a'r safbwyntiau a fynegwyd, cynigiodd y Cynghorydd Sir Maureen Powell ac eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Emma Bryn y dylid cytuno ar Dystysgrif Cyfreithlondeb ar gyfer defnydd C3 b) mewn perthynas â chais DM/2024/00206.

Fe'i rhoddwyd i bleidlais, a chofnodwyd y pleidleisiau canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| O blaid y cynnig | - | 14 |
| Yn erbyn y cynnig | - | 0 |
| Ymatal | - | 0 |

Derbyniwyd y cynnig.

Penderfynasom gytuno ar Dystysgrif Cyfreithlondeb ar gyfer defnydd C3 b) mewn perthynas â chais DM/2024/00206.

5. **ER GWYBODAETH - Yr Arolygiaeth Gynllunio – Penderfyniadau Apêl a Dderbyniwyd:**

https://www.youtube.com/live/B19BQBemGKw?si=z_JRML-VmrhGrw8g&t=2757

**5.1. Rose Cottage, Grange Wood, Knollbury, Magwyr.**

Derbyniom adroddiad yr Arolygiaeth Gynllunio a oedd yn ymwneud â phenderfyniad apêl yn dilyn ymweliadau safle a gynhaliwyd yn Rose Cottage, Grange Wood, Knollbury, Magwyr ar y 18fed Mawrth 2024.

Nodwyd gennym bod yr apêl wedi'i wrthod.

**5.2. Wisteria Lodge, Sandy Lane, Caerwent Brook, Caerwent**

Derbyniom adroddiad yr Arolygiaeth Gynllunio a oedd yn ymwneud â phenderfyniad apêl yn dilyn ymweliadau safle a gynhaliwyd yn Wisteria Lodge, Sandy Lane, Caerwent Brook, Caerwent ar y 16eg o Ionawr 2024.

Nodwyd gennym bod yr apêl wedi'i wrthod.

**CYNGOR SIR FYNWY**

**Pwyllgor Cynllunio**
**Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA**
**Dydd Mercher, 8fed Mai, 2024, 2.00 pm**

**6. Apeliadau Cynllunio a dderbyniwyd -0 1 Ionawr i 31 Mawrth 2024.**

Nodwyd yr apeliadau cynllunio a dderbyniwyd gan yr Adran Gynllunio ar gyfer y cyfnod 1af Ionawr i 31eg Mawrth 2024.